




Cyd-Ddatganiad o Fwriad Strategol Cwm Taf ar gyfer Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion ag Anableddau Dysgu (sy'n cynnwys awtistiaeth ac anghenion cymhleth) a'u teuluoedd

**Dadansoddiad o'r Adroddiad Ymgysylltu â
Rhanddeiliaid
Medi 2017**

Cynnwys		Tudalen
1.	Cyflwyniad	3
2.	Beth wnaethom ni?	4
3.	Canfyddiadau'r grwpiau ffocws	7
4.	Canfyddiadau'r grwpiau defnyddwyr gwasanaethau	8
5.	Canfyddiadau o'r bocs awgrymiadau ar-lein	9
6.	Casgliad	10
	Y wybodaeth a'r holiadur a ddefnyddiwyd  LD survey doc.pdf	

1. Cyflwyniad

Mae Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf yn cydweithio i edrych ar y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl o bob oedran sydd ag anabledd dysgu a'r rhai ag anghenion cymhleth a/neu awtistiaeth a'u teuluoedd.

Ein cydweledigaeth yw y bydd pobl ag anabledd dysgu'n gallu cael gafael ar wasanaethau modern sy'n hyrwyddo eu hannibyniaeth, yn lleihau eu dibyniaeth ar wasanaethau hirdymor ac yn pwysleisio dewis a rheolaeth.

Bydd plant, pobl ifanc ac oedolion ag anabledd dysgu (yn cynnwys pobl sydd ag awtistiaeth ac anghenion cymhleth) yn gallu cael gafael ar wasanaethau effeithlon ac effeithiol sy'n galluogi canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n lleihau'r posibilrwydd o anghenion a risgiau'n gwaethygu drwy hybu ymyrraeth gynnar, atal, mwy o annibyniaeth a'r gallu i fanteisio ar gyfleoedd.

Mae ein strategaeth ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu yn canolbwyntio ar y negeseuon allweddol canlynol:

- Defnyddio mwy o wasanaethau cyffredinol
- Mwy o ymyrraeth gynnar, atal, gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Datblygu cymorth yn y gymuned a datblygu annibyniaeth pobl
- Cadw pobl yn eu cartrefi eu hunain
- Galluogi pobl i fyw bywydau llawn a chyflawni eu potensial
- Cadw pobl yn ddiogel
- Gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau.

Mae'r gwaith wedi'i osod yng nghyd-destun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mae'n amlinellu'r ymagwedd strategol at gomisiynu gwasanaethau anabledd dysgu gan bartneriaid ledled Cwm Taf.

Mae'r datganiad yn cwmpasu unigolion o bob oedran sydd ag anableddau dysgu a'r rhai ag anghenion cymhleth a/neu awtistiaeth a'u teuluoedd. Ystyr unigolion ag anableddau dysgu yw'r rhai sydd â:

- Cryn dipyn yn llai o allu i ddeall gwybodaeth newydd neu gymhleth neu i ddysgu sgiliau newydd (nam ar y deallusrwydd), gyda:
- Llai o allu i ymdopi'n annibynnol (nam ar weithredu cymdeithasol)
- A ddechreuodd cyn i'r unigolyn ddod yn oedolyn ac sy'n cael effaith barhaol ar ei ddatblygiad

2. Beth wnaethom ni?

- 2.1 Cafodd y datganiad drafft cychwynnol o fwriad strategol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion ag Anableddau Dysgu (sy'n cynnwys awtistiaeth ac anghenion cymhleth) a'u teuluoedd (cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Datganiad) ei ddatblygu mewn ymateb i'r hyn yr oedd defnyddwyr gwasanaethau, gofaluwr a rhanddeiliaid eraill wedi dweud wrthym eisoes, a gan gyfeirio at arfer da ac ymchwil o fannau eraill.

Bwriad y gweithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd yn ystod 2017 oedd sicrhau ein bod ni wedi mynd i'r afael â'r pethau y dywedoch chi wrthym a bod y Datganiad yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig.

- 2.1 Dros gyfnod o 16 wythnos, rhwng 11 Mai a 31 Awst, cynhaliwyd amryw o friffiau staff, grwpiau ffocws rhanddeiliaid a sgwrsiau â defnyddwyr gwasanaethau ledled y rhanbarth.

Y grwpiau ffocws

Grŵp ffocws	Cyfranogwyr
Rhieni sy'n ofalwyr	8 cyfranogwr
Staff y Cyngor y tu allan i Wasanaethau Cymdeithasol	11 o gyfranogwyr: llyfrgelloedd, hamdden, addysg oedolion, gwasanaethau cwsmeriaid, llesiant cymunedol, canolfan gyswllt, ymgysylltu a chyfranogiad ieuenctid, tai, uned drafnidiaeth integredig.
Iechyd oedolion	8 o gyfranogwyr: therapiâu a gwyddorau iechyd, iechyd meddwl, anabledd dysgu, gofal sylfaenol, therapi galwedigaethol, cydgysylltydd gofalwyr, maetheg a deieteg, camddefnyddio sylweddau, gofal a diogelwch cleifion, nyrsio ardal.
Iechyd plant	14 o gyfranogwyr: therapi galwedigaethol, therapydd lleferydd ac iaith, ffisiotherapydd, dietegydd, tîm niwroddatblygiadol, nyrsio, pediatregydd, comisiynu, seiciatrydd, blynyddoedd cynnar, cynllunio, ymgysylltu a chyfranogiad.
Grwpiau cymunedol anableddau dysgu	9 o gyfranogwyr: Touch Trust, RhCT, Mencap, Y Ffatri Gelf, Autism for Children, Dewis, Viva
Grwpiau cymunedol ehangach	7 o gyfranogwyr

Roedd pob grŵp ffocws yn para dwy awr ac yn dilyn trefn debyg. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr gyflwyno eu hunain drwy ddweud pwy oedden nhw, beth oedd eu rôl ac am beth roedden nhw'n gyfrifol. Yna, treuliodd yr hwylusydd ddeng munud yn esbonio'r cyd-destun mewn perthynas â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Datganiad o Fwriad Cwm Taf ar gyfer Anableddau Dysgu. Yna, gofynnwyd yr un cwestiynau i bob grŵp ffocws:

- Pa effaith mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi'i chael eisoes?
- Oes yna rywbeth yn tynnu'ch sylw yn arbennig yn y Datganiad o Fwriad?
- Pa bethau fyddech chi'n eu hoffi gwneud yn wahanol?
- Pa effaith fyddai'n ei chael?
- Beth fyddai ei angen i'w wneud yn wahanol?
- Sut fyddech chi'n hoffi i ni fwrw ymlaen â'r gwaith ymgysylltu?
- Pwy arall all ein helpu ni?
- Unrhyw adnoddau eraill a allai ein helpu ni?

Caniatawyd i'r trafodaethau lifo'n naturiol ac ni symudodd yr hwylusydd ymlaen i'r cwestiwn nesaf nes bod oedi naturiol yn y drafodaeth. Cafodd trafodaethau'r grwpiau ffocws eu recordio, trawsysgrifio a dadansoddiwyd y data gan ddefnyddio Nvivo.

Sesiynau Briffio Rhanddeiliaid

Ar ddechrau'r broses ymgysylltu, creodd swyddogion y broses ymgysylltu ar draws y Bartneriaeth fap rhanddeiliaid cynhwysfawr (gweler atodiad 1) i sicrhau bod modd dosbarthu'r holl ddeunyddiau briffio'n eang a bod modd diweddarau a chynnwys staff gweithredol.

Trefnwyd grŵp ffocws i gefnogi gwaith ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau effeithiol ar 19 Mai. Trefnwyd y sesiwn ar gyfer staff (o bob rhan o'r gwasanaeth) a'r grŵp hunaneiriolaeth (Pobl yn Gyntaf) i ystyried y ffordd orau o ymgysylltu a chasglu barn yr amrywiaeth eang o bobl ag anableddau dysgu sydd â gwahanol lefelau o anghenion a sgiliau cyfathrebu. Canlyniad y sesiwn hon oedd sicrhau sgysiau effeithiol gyda defnyddwyr gwasanaethau am y cynllun a'i gynnwys.

Cyfarfodydd gyda defnyddwyr gwasanaethau (Pobl yn Gyntaf)

Hwylusodd Pobl yn Gyntaf sgysiau gyda defnyddwyr gwasanaethau am y Datganiad o Fwriad fel rhan o gyfres o gyfarfodydd yn ystod mis Gorffennaf.

Daeth llawer o bobl i'r sesiynau hyn a defnyddiwyd y ddogfen 'hawdd i'w darllen' a gynhyrchwyd i gefnogi'r broses ymgysylltu.

Roedd y niferoedd a ddaeth i'r cyfarfodydd hyn fel a ganlyn

Merthyr	18
Rhondda	8
Taf Elái	10

Bocs awgrymiadau ar-lein

Crëwyd bocs awgrymiadau ar-lein ar Hyb Cwm Taf i gasglu safbwyntiau a myfyrdodau pobl ymhellach. Rhoddodd swyddogion y bartneriaeth gyhoedduswydd i'r cyfleuster ar-lein hwn yn eu meysydd gwasanaeth, gyda rhanddeiliaid, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Rhoddwyd cyhoedduswydd iddo drwy'r sesiynau briffio rhanddeiliaid a'r grwpiau ffocws hefyd.

Roedd y cyfranogwyr a gofnododd eu safbwyntiau yn y bocs awgrymiadau ar-lein fel a ganlyn:

Person ag anabledd dysgu	1
Gofalwr rhywun ag anabledd dysgu	14
Gweithiwr proffesiynol yn gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu	35
Arall	7
Cyfanswm	57

Bwrdd Comisiynu Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yw darparwr gwasanaethau iechyd anableddau dysgu arbenigol ar gyfer ein poblogaeth yng Nghwm Taf.

Cyflwynodd swyddogion y Datganiad o Fwriad i'w Bwrdd Comisiynu Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ar 10 Awst 2017. Aeth y Bwrdd ati i gymeradwyo ac addo cefnogi'r Datganiad.

3. Canfyddiadau'r grwpiau ffocws

Mae'r canfyddiadau wedi'u grwpio o dan dair thema (Gwasanaethau Cyffredinol, Gwasanaethau Cyffredinol a Mwy, ac Ymyrraeth Gynnar) sy'n adlewyrchu'r model ar gyfer comisiynu bywyd cyffredin a ddisgrifiwyd yn y datganiad o fwiad.

Mae'r canfyddiadau hyn yn crynhoi'r prif faterion a godwyd. Mae esboniad manylach o'r drafodaeth ar gael ar gais.

Gwasanaethau Cyffredinol

- Mae yna gydberthynas rhwng teuluoedd yn cael profiad gwael o wasanaethau cyffredinol yn methu ymdopi ag aelod o'u teulu ag anableddau dysgu a'r casgliad mai gwasanaeth arbenigol yw'r unig ateb o ganlyniad.
- Mae yna ddiffyg seilwaith cymunedol.
- Mae angen trefniadau rhagnodi cymdeithasol.
- Mae angen grymuso pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd.
- Mae angen cynyddu presenoldeb a chyfraniad yn y gymuned er mwyn lleihau stigma.
- Mae angen cefnogi a grymuso staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyffredinol.
- Mae angen i amgylcheddau cymunedol fod yn fwy hygyrch.

Gwasanaethau Cyffredinol a Mwy

Roedd cyfranogwyr yn dweud yn gyson nad oes gwasanaethau cyffredinol a mwy i'w cael ar hyn o bryd ac unwaith eto dyma'r rheswm pam mae pobl yn neidio i'r casgliad mai gwasanaeth arbenigol yw'r UNIG ateb.

Ymyrraeth Gynnar

Roedd materion ymyrraeth gynnar yn canolbwyntio'n gyson ar ymddygiad heriol a'r diffyg cymorth sydd i deuluoedd i'w helpu i reoli a lleihau ymddygiad o'r fath.

Cyfarfodydd gyda defnyddwyr gwasanaethau (Pobl yn Gyntaf)

Crynodeb o'r cyfarfodydd gyda defnyddwyr gwasanaethau, a drefnwyd gan Pobl yn Gyntaf, yw'r canfyddiadau hyn. Maent yn adlewyrchu strwythur pob cyfarfod ac yn nodi'r prif themâu a gofnodwyd yn y cofnodion. Mae cofnod manylach o bob cyfarfod ar gael ar gais.

Pan ofynnwyd a oedd y datganiad o fwriad yn mynd i'r afael â'r pethau pwysig iddyn nhw, dywedwyd yn benodol nad oedd yn mynd i'r afael â'r canlynol:

- Trafnidiaeth gan eu bod yn teimlo'n arbennig bod trafndiaeth yn allweddol i gefnogi mynediad i'r pethau roeddynt am eu gwneud
- Mynediad i lefydd i gefnogi pobl ag anableddau dysgu deimlo'n fwy o ran o'r gymuned a'u helpu i fod yn fwy annibynnol

Roedd y pethau a nodwyd fel pethau 'pwysig' iddyn nhw fel a ganlyn (crynodeb):

- Bwyta'n iach
- Cadw'n ffit a gallu ymarfer (cerdded, nofio, dawnsio, mynd i'r gampfa, siopa, pêl-droed, badminton, bowlio, Zumba)
- Gallu defnyddio TG a chyfathrebu ar-lein gyda ffrindiau
- Bod gyda phartneriaid, ffrindiau a theulu a chymdeithasu, mynd i lefydd gyda nhw
- Byw gyda'r teulu
- Dysgu a chynnal sgiliau newydd – garddio, celf a chrefft
- Gweithio/cael swydd
- Cael meddygon lleol da a gallu siarad yn hyderus gyda meddygon i ddweud sut rydych chi'n teimlo a'u cael nhw i wrando
- Bod yn actif
- Bod yn hapus
- Iechyd a llesiant teulu
- Cael seibiant a gwyliau

Nodwyd yn arbennig yn ystod y cyfarfodydd hyn bod angen rhoi blaenoriaeth i gyfathrebu gyda defnyddwyr gwasanaethau mewn perthynas ag unrhyw newidiadau i wasanaethau a'u bod am sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn llawn mewn unrhyw newid i ddarpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol.

Canfyddiadau'r bocs awgrymiadau ar-lein

Mae'r canfyddiadau hyn yn grynodedb o'r ymatebion a gofnodwyd yn yr holiadur ar-lein a oedd yn fyw rhwng mis Mai a mis Awst 2017. Mae cofnod manylach o'r ymateb ar-lein ar gael ar gais.

O'r rhai a gymerodd ran, dywedodd 90% eu bod yn teimlo bod y datganiad o fwriad yn cofnodi'r pethau sydd fwyaf pwysig iddyn nhw.

O'r rhai nad oedd yn cytuno, roedd eu sylwadau'n cyfeirio'n bennaf at y ffaith fod y ddogfen wedi'i hysgrifennu ar lefel uchel ac nad oedd yn cynnwys manylion am sut i'w roi ar waith.

Cyfeiriwyd yn benodol hefyd at y ffaith nad yw'r ddogfen ddrafft yn cyfeirio at Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2016 a'i oblygiadau.

Pan wahoddwyd cyfranogwyr i ddarparu sylwadau pellach am y datganiad o fwriad a'i gynnwys roedd y rhain yn cynnwys

- Cymorth i ddatblygu gwasanaethau cyffredinol
- Pryder am adnoddau ariannol i reoli cymorth lefel isel a gofal arbenigol
- Pwyslais ar geisiadau i wella cyfathrebu o ran ymgysylltu a darparu gwasanaethau

Pan ofynnwyd iddynt beth oedd yn fwyaf pwysig i bobl ag anableddau dysgu fe nodwyd y canlynol

- Cael y gofal a'r cymorth priodol pan fo'u hangen
- Bod yn annibynnol
- Bod gyda ffrindiau a theulu
- Derbyn gofal
- Gallu cymryd rhan mewn digwyddiadau yn y gymuned
- Bod yn actif a chymryd rhan mewn pethau newydd
- Cael cartref diogel a chyfforddus
- Gallu dysgu sgiliau newydd
- Iechyd a llesiant eu gofalwr/rhiant
- Cael cyngor a chymorth da i'w cadw'n iach
- Cael eu trin fel unigolyn sy'n cael ei barchu

Adborth o'r maes Addysg

Mae pobl sy'n gweithio'n lleol yn ein Gwasanaethau Addysg wedi nodi nad yw'r ffigurau a ddyfynnir yn nhabl 1 o'r Datganiad o Fwriad yn adlewyrchu eu profiad.

Er enghraifft, mae nifer y bobl ifanc yn RhCT sydd wedi bod angen datganiad yn dweud bod ganddyn nhw Angen Addysgol Arbennig wedi cynyddu 46% ers 2012 (o 564 i 823 o ddisgyblion yn 2016).

Gallai'r anghysondeb hwn rhwng twf go iawn mewn addysg a thwf a ragwelir mewn iechyd a gofal cymdeithasol fod o ganlyniad i amrywiadau mewn meini prawf adrodd, ond mae angen gwneud mwy o waith i archwilio'r data i wella hyder yn ei ddibynadwyedd ar gyfer cynllunio gwasanaethau i'r dyfodol ar draws pob gwasanaeth.

Ni chyfeiriodd drafft cychwynnol y Datganiad o Fwriad at Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2016 (a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2016).

Mae'r darn arwyddocaol hwn o Ddeddfwriaeth Cymru wedi symud ymlaen i Gam tri o broses y Cynulliad, a bydd yn dod yn Ddeddf yn gynnar y flwyddyn nesaf (gyda'r dyddiad gweithredu i'w gadarnhau). Rhagwelir y bydd goblygiadau'r Bil yn arwyddocaol i Awdurdodau Lleol ac y bydd angen cydgynllunio rhwng Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Addysg i gydgyssylltu ei weithrediad. Bydd maint y dasg hon yn dod yn gliriach wrth i'r Bil symud yn ei flaen ac wrth i'w Reoliadau a'i Godau Ymarfer gael eu cytuno'n ffurfiol.

Casgliad

Ar y cyfan, mae'r Datganiad o Fwriad wedi derbyn cefnogaeth eang, ac yn enwedig y model gwasanaeth ar gyfer comisiynu bywyd cyffredin.

Rydym wedi clywed bod cael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau cyffredinol a chymunedol yn her fawr i bobl ag anableddau dysgu ar hyn o bryd, a nododd defnyddwyr gwasanaethau yn enwedig yr anawsterau ymarferol sy'n eu hwynebu wrth iddynt geisio byw bywyd arferol yn y gymuned.

Rydym wedi nodi bod angen i ni barhau i edrych ar yr hyn sy'n bwysig i bobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd ac ymgysylltu â nhw yn effeithiol wrth ddylunio'r gwasanaeth i'r dyfodol. Y rheswm am hyn yw bod rhaid i'n dealltwriaeth o hygyrchedd gwasanaethau cyffredinol a gwasanaethau cymunedol gael ei llywio gan brofiadau'r rhai sy'n ceisio cael mynediad atynt i sicrhau bod yr heriau allweddol sy'n eu hwynebu yn cael eu trafod.

Y nod yw i'r Datganiad o Fwriad weithredu fel datganiad strategol y gall partneriaid ei ddefnyddio fel fframwaith ar gyfer comisiynu a datblygu pellach, ond roedd natur y ddogfen lefel uchel hon yn rhwystredig i rai a oedd yn awyddus i ddeall sut y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Un neges gref a gafwyd gan bob cyfranogwr oedd yr angen i gyfathrebu'n fwy effeithiol â phobl ac i ymgysylltu â nhw mewn unrhyw newid a datblygiad yn y gwasanaeth.

I'r perwyl hwnnw, bydd y Grŵp Llywio Rhanbarthol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol Merthyr Tudful a RhCT, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Rhoi Pobl yn Gyntaf a grwpiau cymunedol y trydydd sector yn gyfrifol am sicrhau bod gweithgareddau ymgysylltu a chyfathrebu effeithiol gyda defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, rhieni, staff a rhanddeiliaid eraill yn ystod y camau nesaf yn cael blaenoriaeth.

Cyn mynd ati i gyflawni'r gwaith manylach i roi'r model ar waith ac i gwblhau'r gwaith ar y datganiad ei hun, byddwn yn diwygio'r ddogfen ddrafft i ymgorffori Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2016 a'i oblygiadau. Wrth i'r Bil hwn symud drwy'r broses, bydd ei ofynion yn gofyn am weithio agosach rhwng Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Addysg, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio ar gyfer newid.

Cydnabyddir bod anghysondeb rhwng y ffigurau a gyhoeddwyd yn nhabl 1 yn y Datganiad o Fwriad hwn a'r profiad o'r galw go iawn mewn Gwasanaethau Addysg. Mae gwaith pellach wedi'i nodi eisoes fel gwaith sy'n ofynnol i sefydlu cofrestr fwy cadarn o bobl ag anabledd dysgu yng Nghwm Taf fel y gall data rhagamcanedig yn y dyfodol gael ei adrodd gyda mwy o hyder a thryloywder.

I gael mwy o wybodaeth a mynediad at adroddiadau manylach, cysylltwch â:

Sian Nowell

Pennaeth Trawsnewid – Rhanbarth Cwm Taf

Heddfan, Ilan Avenue
Rhydfelen, Pontypridd
CF37 5PN

Ffôn: 01443 668827

e-bost: sian.nowell@rctcbc.gov.uk